# IESU, "MYFI YW'R ATGYFODIAD A'R BYWYD."

**Emyn: 257** '*Rwy'n gweld o bell y dydd yn dod*.'

**Darlleniad:** Ioan 11: 17-27.

**Neges**:

## A. Y CYMERIADAU.

**i)Martha**: Y wraig brysur. Yn *Luc 10* mae Martha yn llawn cynnwrf wrth baratoi bwyd ac yn ddig tuag at Mair ei chwaer. "***Dwed wrthi am ddod i helpu***!" Yn *Ioan 12* gwelwn Martha eto'n gweini, ond nid yw'n cwyno. **Pam?** Mae'r Iesu wedi codi ei brawd Lasarus o'r marw yn fyw a bellach nid edrych ar yr hunan a'i hymdrechion a wna Martha, ond edrych ar Iesu gan geisio byw a'i wasanaethu ef.

**ii) Mair**: Y wraig ddwys. Mae Mair (eto yn Ioan 12) yn eneinio traed yr Iesu ac yn eu sychu gyda'i gwallt. **Pam**? Nid gwastraff ydoedd ond cyflawnwyd '*ar gyfer dydd ei farwolaeth*.' Deallodd Mair, pan na wnaeth y disgyblion, bod Iesu yn mynd i farw, a marw dros bechodau'r byd. **Sut y gwyddai hyn**? Roedd yn gyson yn gwrando ar Iesu.

**iii) Lasarus**: Y gŵr tawel: Nid oes cofnod iddo lefaru'r un gair. Ond roedd ei fywyd yn dyst i'r Iesu, ac am hyn roedd y prif offeiriaid am ei ladd, (12:10).

## B. CYFAILL SÂL.

Daeth neges at Iesu, "*Y mae dy gyfaill, syr, yma'n wael*" 3.
**i) Cyfaill**: Os oedd cyfaill i Iesu yn medru bod yn sâl iawn a phrofi marwolaeth, onid yw'n bosib i bawb (y credadun) ddioddef felly? **Sut wnaeth Martha a Mair ddelio gyda hyn**?

**ii) Cais**: Gwnaethant gyflwyno'r mater difrifol i Iesu. **Pam**? Roedd Iesu yn eu caru a hwythau yn ei garu ef, 5. Nid ydynt yn gorfodi'r Iesu i ddod ond yn ceisio ei ewyllys. Ond ni wnaeth Iesu fynd yn syth at Lasarus! '*Ac wedi clywed ei fod yn wael, arhosodd am ddau ddiwrnod yn y fan lle'r oedd*,' 6. **Pam**?

**iii) Oedi Annisgwyl**: "*Nid yw'r gwaeledd hwn i fod yn angau i Lasarus, ond yn ogoniant i Dduw; bydd yn gyfrwng i Fab Duw gael ei ogoneddu trwyddo*," 4. Mae Iesu am adael i'r sefyllfa ddifrifol ddangos mawredd Duw a'i awdurdod ef. **Sut y gogoneddwyd y Tad a'r Mab**? a) Roedd y wyrth o godi Lasarus o gyflwr marw yn arwydd o nerth a gallu Duw. b) Amlygwyd gallu Duw hefyd yn y newid yng nghalonnau pobl. Daeth pobl i gredu yn Iesu; '*Felly, daeth llawer o'r Iddewon, y rhai oedd wedi dod at Mair a gweld beth oedd yr Iesu wedi ei wneud, i gredu ynddo*,' 45. c) Iesu, Mab Duw. Roedd gallu Iesu i godi Lasarus o'r farw yn fyw yn dangos nad dyn cyffredin ydoedd ond Duw.

## C. CRIST, YR ATGYFODIAD A'R BYWYD.

Geiriau allweddol i'r darn yw'r canlynol. '***Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd." "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf." Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd,"*** **23-25**.

i)**Deall Anghyflawn Martha**: a) Gwnaeth Martha ddatgan, "*Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw*," 21. Yn hyn o beth mae'n cyfyngu gallu Iesu; nid oedd rhaid iddo ef fod yn bresennol i iachau Lasarus.
b). Gwnaeth hefyd ddatgan ei bod yn credu mewn atgyfodiad, ond fel llawer Iddew arall, credu mewn atgyfodiad rhywbryd yn y dyfodol ydoedd; nid ydoedd yn credu y medrai codi ei brawd yn awr. c) Er y credai mewn atgyfodiad, nid ydoedd yn deall mai Iesu oedd y gallu a'r nerth ar gyfer atgyfodi. Iesu yw'r atgyfodiad!

ii) **Mawredd Crist**: Ymateb Iesu i Martha oedd datgan, "*Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd*."

a) **Iesu yw'r atgyfodiad**: Cyn hir roedd i farw ac fe osodwyd mewn bedd ond **fe gododd o'r marw yn fyw**. Ni allai marwolaeth ei ddal – yn wir Iesu yw'r atgyfodiad.

b) **Iesu yw'r bywyd**: Cododd Iesu o'r marw yn fyw. Mae'n fyw yn awr, byth i brofi marwolaeth eto. Oherwydd iddo ef goncro marwolaeth a'r bedd mae'n abl i roi bywyd newydd i eraill. Gallwn ninnau rannu yn ei fywyd atgyfodedig trwy gredu ynddo ef. **I bwy mae'r bywyd yma**?

"*Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw*."
a) "***Pwy bynnag***." Mae i bawb sy'n barod i gredu yn Iesu.
b) "***Credu***." Gwir gredu yn Iesu fel Mab Duw a Gwaredwr.
c) "***Er iddo farw***." Mae'n bosib i gredinwyr i brofi marwolaeth y corff ar y ddaear hon ond geiriau rhyfeddol Iesu yw, "***Fe fydd fyw***!" Hynny yw, byddant yn profi bywyd mewn corff newydd gogoneddus yn y nef am byth. **A ydym yn credu hyn**? I'r anghredadun, mae marwolaeth yn golygu poen a dioddefaint a bod ar wahan o Dduw am byth. Ond i'r credadun mae'n golygu mwynhau bywyd newydd heb boen, galar na marwolaeth mwyach, a bod yn Ei gwmni am byth.

**Gweddi**: O Dduw Dad, diolch yng nghanol holl ofid y cyfnod pryderus hwn am dy eiriau llawn gobaith i ni. Ni wyddom i sicrwydd beth a ddaw i'n rhan yn y dyfodol, ond y calondid sydd gennym yw dy fod yn cynnig bywyd gwell, bywyd yn ei holl gyflawnder, yn y nef rhyw ddydd. Diolch bod hyn yn bosib, nid oherwydd unrhyw haeddiant sy'n perthyn i ni, ond oherwydd mai Iesu yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Clyw ein gweddi, yn Ei enw, Amen.

## JESUS, "I AM THE RESURRECTION AND THE LIFE."

**Hymn: 930 '***Thine be the glory, risen, conquering Son*.'

**Reading:** John 11:17-27.

**Message:**

### A. THE CHARACTERS.

**i)Martha**: The busy one! In Luke 10 Martha is 'stressed out' as she prepares food and is upset with her sister Mary. She tells Jesus, "Tell her to help me." In John 12, Martha is again preparing food but this time she is not complaining. Why? By then, Jesus had raised Lazarus to life, so she is no longer looking to her own efforts, but is seeking to live for Jesus and to serve him.

**ii) Mary**: The 'studious' one. Mary (again in John 12) anoints the feet of Jesus and dries them with her hair. **Why**? This was no waste, but in preparation 'for the burial of Jesus'. Mary understood that Jesus was about to die for the sins of mankind. How did she know? She listened to Jesus and spent time in his presence.

**iii) Lazarus**: The quiet man. Though there is no record of a single word that he spoke, he witnessed to Jesus in his life. So much so, that the Pharisees wanted to kill him!

### B. A CRISIS.

A message came to Jesus, "*Lord, he whom you love is ill*".
<u>i) A Loved One</u>: If a friend of Jesus could become ill and face death, is it not possible for all of God's children to suffer hardship?

ii) <u>Looking to Jesus</u>: How did the sisters respond to the serious illness? They call upon Jesus, a dear friend (vs. 5), and seek his will.

iii) <u>An Unexpected Delay</u>: '*Yet when he heard that Lazarus was sick, he stayed where he was two more days*,' 6. The natural response would have been, to go and offer help. **Why didn't he**? "*This illness does not lead to death. It is for the glory of God, so that the Son of God may be glorified through it,*" 4. **How would God and Jesus be glorified**? a) The miracle of raising Lazarus from the dead would show God's power. b) Seeing God's power at work would lead to changed hearts. '*Many of the Jews therefore, who had come with Mary and had seen what he did, believed in him*,' vs. 45. c) By raising Lazarus from the dead, Jesus showed that he was no ordinary man but the Son of God.

## C. JESUS, THE RESURRECTION AND THE LIFE.

This passage contains wonderful words. '*Jesus said to her, "Your brother will rise again." Martha said to him, "I know that he will rise again in the resurrection on the last day." Jesus said to her, "I am the resurrection and the life*," 25.

i)<u>An Incomplete Understanding</u>: a) Martha declared, "*Lord, if you had been here, my brother would not have died*," 21. Jesus did not need to be present to heal Lazarus; he could merely have said the word from where he was originally. b) Martha believed in a resurrection, but like many Jews she only believed that it was something that would occur at a future time. She also did not believe that Jesus could raise her brother now.
c) Though she believed in a resurrection, she did not understand that <u>Jesus was the power of the resurrection</u>.

ii) <u>The Power of Jesus</u>: Jesus responded to Martha, "***I am the resurrection and the life,***" 25.

a) **Jesus the resurrection**: Before long Jesus would die on a cross and be placed in a tomb. But he rose from death to new life. Death could not keep hold of him – He is truly the resurrection.

b) **Jesus the life**: Jesus rose from death to life; He is alive! Because he has conquered death and the grave, he is able to give life to others; they also can experience his resurrected life. **Who can receive this new life**?

"**Whoever believes in me, though he die, yet shall he live**," 25.
a) "***Whoever***" - Jesus invites all to believe in Him.
b) "***Believes***" - Believe in Jesus as Son of God and Saviour.
c) "***Though he die***" – A believer in Jesus may experience physical death on this earth, yet Jesus' wonderful words are, "***Yet shall he live***." **How can this be**? Believers in Jesus will share in his resurrected life; they will receive a glorious new body and live with him forever in heaven. **Do we believe in this**?

For the unbeliever death means continued pain and suffering and being apart from God. For the believer, death means a life with no more pain, grief or death and being in the presence of Jesus forever.

**Prayer:** O Father God, thank you, in the midst of the present crisis, that we can hear words of comfort from you. We do not know what the future holds, but it is comforting to know that you offer a new life, a life in all its abundance in heaven. Thank you that this is possible because Jesus is the resurrection and the life. Amen.